

GWYBODAETH I DDRINGWYR

Mae clogwyni Sir Benfro ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro o bwys rhyngwladol ar gyfer adar sy'n nythu ar y clogwyni ac maent yn cynnig rhai o'r cyfleoedd gorau yn y wlad ar gyfer dringo clogwyni ger y môr. Yn y daflen hon ceir manylion am y cyfyngiadau dringo tymhorol y cytunwyd arnynt i warchod manau nythu a bwydo. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad y cytrefi o adar y môr a'r brain coesgoch, hebogiaid tramor a chigfrain sy'n nythu yma. Mae'r ardaloedd dringo o fewn Safleoedd o Ddidordeb Gwyddonol Arbennig a hefyd yn cynnwys Ardaloedd Gwarchod Arbennig Ewropeaidd. Gweler y 'Green Guide' i ddringo sydd ar wefan Cyngor Mynydda Prydain.

MAESTIR Y DWYRAIN, CASTELLMARTIN (Tir y WA)

- **EDRYCHWCH AR YR HYSBYSFYRDDAU BOB DYDD CYN DECHRAU DRINGO (gweler y map).** Bydd y rhain yn dangos y newidiadau diweddaraf yn ystod y tymor.
- **DIM OND PAN NA FYDD TANIO AR Y MAESTIR Y GELLIR CAEL MYNEDIAD** - edrychwch yn y papurau newydd lleol neu ffoniwch y llinell wybodaeth 24awr. Ffôn 01646 662367
- **PEIDIWCH Â DRINGO RHWNG YR ARWYDDION COCH** yn ystod adegau o gyfyngiad.
- **COFIWCH OSGOI MANNAU O DYFIANT** - mae'r blodau ar y clogwyni yn cynnwys rhai o rywogaethau mwyaf prin y wlad.
- **PEIDIWCH Â CHYSYLLTU BELAIAU I EIDDO'R WEINYDDIAETH AMDDIFFYN** na rhoi unrhyw bolion newydd rhag i chi daro dyfeisiau heb ffrwydro ac am resymau cadwraethol.
- **NI CHANIATEIR DRINGO CLOGWYN Y CAPEL AR UNRHYW ADEG** (Diogelwch y cyhoedd).

MAESTIR Y GORLLEWIN, CASTELLMARTIN (Tir y WA)

Mynediad trwy ganiatâd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn unig. Mae angen i ddringwyr fynychu briffio a sicrhau trwydded. Am wybodaeth bellach a'r dyddiadau briffio a fydddech gystal, os gwelwch yn dda, â chysylltu â'r CMP neu Barcmon Castellmartin.

PENTIR LYDSTEP

Efallai y bydd cyfyngiadau ar ddringo yn 'Mother Carey's Kitchen' ('Inner Space' i 'Star Gate') a 'The Chimney'. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu ewch i wefan Cyngor Mynydda Prydain.

GOGLEDD SIR BENFRO

- Needle Rock, Abergwaun - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.
- Cyfyngiad Llech Dafad - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.
- Cyfyngiad Penbwchdy - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.
- Abercastell - clogwyni Ynys Deullyn - Fe gyfyngir ar y safle os bydd adar yn nythu yma. Edrychwch am arwyddion ar ben y clogwyni.
- Mur Cenhinen - fe gyfyngir ar y safle os bydd adar yn nythu yma. Edrychwch ar Gronfa Ddata Mynediad Rhanbarthol CMP.
- Ogorf Mrs Morgan - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.
- Dinas Fach (rhwyng Solfach a Niwglwl) - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.

A wnewch chi ddweud wrth Gynrychiolydd Mynediad y CMP steve@pembrokeshire.ac.uk os ydych yn gweld hebog tramor neu frân goesgoch nythod ar Ynys Deullyn neu Pemaen Dewi.

Y CYFYNGIADAU DRINGO TYMHOROL Y CYNTUNWYD ARNYNT

Cytunwyd ar y cyfyngiadau hyn rhwng CMP, y Clwb Dringo Sir Benfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses o gyd-gysylltu rhwng yr holl gyrrff perthnasol. Gofynnir i'r holl ddringwyr gadw at y cyfyngiadau hyn. Dangosir ar y map ar ba adeg o'r flwyddyn y mae'r cyfyngiadau mewn grym. Mae ogofâu ar arfordir Sir Benfro yn cynnwys bywyd gwylt, daeareg ac archaeoleg prin a sensitif. Dylid osgoi mynd i mewn iddynt.

GWYBODAETH BELLACH

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch y cyfyngiadau dringo cytûn oddi wrth:

- Cyngor Mynydda Prydain - Ffôn 0161 445 6111 access@thebmc.co.uk www.thebmc.co.uk www.thebmc.co.uk/modules/RAD
- Uwch Reolwr Gwarchodfa, Cyfoeth Naturiol Cymru - Ffôn 01646 661368 paul.culyer@naturalresourceswales.gov.uk
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Sir Benfro - Ffôn 01646 623110 stackpole@nationaltrust.org.uk
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Adran Cyflawni y Parc - Ffôn 01646 624850
- Gwersyll y WA, Castellmartin, Swyddfa'r Maestir (oriau gwaith) - Ffôn 01646 662306
- Parcmon Castellmartin - Ffôn 07866 771188 e-bost: climbing@pembrokeshirecoast.wales
- Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro www.pembrokeshireoutdoors.org.uk

CYFYNGIADAU DRINGO CYTÛN Sir Benfro 2023



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

BMC

MAE'R HYSBYSFYRDDAU YN RHOI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF DYLLID EU DARLLEN BOB DYDD CYN DECHRAU DRINGO

- Edrychwch am rybuddion a marcwyr dringo ar ben y clogwyni
- **Mewn argyfwng cysylltwch â Gwylwr y Glannau T 999**
- WA, Castellmartin, gwybodaeth cofnodedig am amserau tanio ar Faestiroedd y Dwyrain - Ffôn 01646 662367

ARWYDDION AR Y CLOGWYNI (POTIAU BLODAU CONCRID, COCH)

Nodir y cyfyngiadau dringo gan arwyddion ar frigau'r clogwyni sydd â rhifau arnynt. Mae'r rhifau yn cyfateb i'r rhifau a ddangosir gerllaw'r cyfyngiadau ar y map. Peidiwch â dringo rhwng marcwyr sy'n dangos yr un rhif. Dengys saethau ar yr arwyddion i ba gyfeiriad y mae'r cyfyngiadau'n gymwys.

MAESTIR Y GORLEWIN CASTELLMARTIN

Bob amser mae dringo drwy DRWYDDED yn unig

Ffin y Maestir Tanio (GORLEWIN)

HysbysfyRDDAU
P ♿ ♻

STACIAU HELIGOG
Pob dringfa

Y GROCHON
Pob dringfa

CRIB FFLIMSTON

CYFYNGIADAU YN ARDAL 1
Y Bont Werdd / Y Grochon
1 Mawrth - 1 Awst
Staciau Heligog
1 Mawrth - 1 Awst

Ffôn mewn argyfwng

Cyfyngiadau dringo

Meysydd parcio ceir


Toiledau

Ffôn

Radar

Gwylfâu

Baeu ble mae morloi'n magu



FFONAU ARGYFWNG GER Y TOILEDAU YN BROAD HAVEN A CHEI YSTAGBWLL

MAES TANIO CASTELLMARTIN

MAESTIR Y DWYRAIN CASTELLMARTIN

Mynediad ar hyd y Llwybr Arfordirol a'r llethr tua'r môr yn unig

BAE FFLIMSTON
CROCKSYDAM
MOODY NOSE
SLABIAU CRISILA
THUNDER WALL
'Thunderdome' i 'Thunderbird' cyn

TRWYN MEWSFORD
BWÂU MEWSFORD
'Brain Drain' i 'Stegosaurus' cyn 'Labyrinth'

PANZER WALLS
'Speakeasy' i 'Helen's Horror' cyn 'Underneath The Arches'

'Cloud Nine, Hang Ten i 'Galaxy' cyn 'Snap, Popple & Crack' to 'Cheese Please'

SEASIDE GULLY
'Fight The Good Fight' i 'Midnight Express' cyn
TRIPLE OVERHANG BUTTRESS
'Horrorscope' i 'Galactic Co-ordinator' dim cyfyngiadau os eir yno drwy abseiliau'n uniongyrchol
'Star Control' i 'Rabbit Ripper' (ar Ripper Cliff) cyn

CYFYNGIADAU YN ARDALOEDD 2 - 11
1 Mawrth - 1 Awst



NAID YR HELIWR
'Charybdis' a 'Leap Of Faith' cyn

MÔRDWLL CASTELL DWYRAIN
Pob dringfa
'White Knight'

PEN CYFRWY
PENRHYN BOSHERSTON
PENRHYN STENNIS
PENRHYN NEWTON

HysbysfyRDDAU
P ♿ ♻

BAE CAPEL
Pob dringfa

TREVALLEN
Cymervch olwg ar yr HysbysfyRDDAU i gael manylion

'Draft Dodger' i 'D-Day' cyn

'Solitary Confinement' i 'Zodiac' cyn

ARDAL 12 DIM DRINGO AR UNRHYW ADEG

CYFYNGIADAU YN ARDALOEDD 13 - 15
1 Mawrth - 1 Awst



Bosherston
P ♿ ♻



HysbysfyRDDAU
P ♿ ♻

Ffin y Maestir Tanio (DWYRAIN)

NEW QUAY STACK
Pob dringfa

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

CYFYNGIADAU DRINGO CYTÛN

Staciau'r Heligog i Bentir St Gofan

2023

COD YMDYGIAD YNGHYLCH MORLOI

Osgowch bob cildraeth, ogof a bae lle mae morloi neu eu lloi bach rhwng 1 Awst a 30 Tachwedd

